

Tro Pedol (Parchg Rhys Locke)

Marc 1:15 “Mae’r amser wedi dod,” meddai. “Mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarihewch a chredwch y newyddion da!”

Mae'r Efengyl yn glir, mae angen i ni edifarihau a chredu. Ond beth all hyn ei olygu i ni mewn termau syml fel pobl?

Mor aml oherwydd ffilmiau a rhaglenni teledu mae’r gair “Edifeirwch” wedi dod yn rhyw fath o air “hen ffasiwn” ymysg pobl a hyd yn oed Cristnogion. Fodd bynnag, gair a gweithred yw hwn nad yw’n cael ei ddefnyddio’n aml gennym ni yn ein heglwysi – ac eto mae’n ffurfio sylfaen yr Efengyl – neges Crist bod yn rhaid inni edifarihau a chredu neges yr Efengyl.

Y Newyddion Da hynny yw: bod Crist y Meseia wedi dod; y mae wedi dwyn i ni faddeuant am ein Pechod trwy ei Waed ac fe ddaw eto ryw ddydd mewn Gogoniant. Trwy ei enw Ef a thrwy ffydd ynddo Ef yn unig y gallem dderbyn rhodd rad Duw, sef Bywyd Tragwyddol — gyda Christ ein Cyfiawnder.

Mae’r Efengyl yn glir: fod Un Duw ac yntau’n Dad ein Harglwydd Iesu Grist ... ac nid oes ond un ffordd at y Tad ... a hynny trwy’r Mab.

Mae'n dweud wrthym yn blaen trwy'r Efengylau i edifarihau cyn i ni wneud unrhyw beth arall.

Gall y broses o edifarihau fod yn boenus oherwydd mae'n golygu troi cefn ar yr hyn rydyn ni'n gwybod sy'n anghywir, a dilyn Crist.

Gyda'r eglwys yma yn y Creunant dwi'n hoffi defnyddio'r gair "tro pedol" tra'n cyfeirio at "Edifeirwch" oherwydd mae'n air sy'n cael ei ddeall gan bawb...yn enwedig gyrwyr ceir!

Mae'r ddarlun o yrru ac yna gwneud ymdrech ymwybodol i stopio, troi o gwmpas a symud ymlaen yn berffaith! Wrth inni newid cyfeiriad, gwrthod edrych yn ôl a symud ymlaen law yn llaw â Iesu Grist ac yn nerth ei Waed, yn nerth yr Ysbryd Glân ac yn nerth ei Air.

Y mae Crist yn hollol eglur : nid oes neb yn gallu dyfod i ffydd heb ysbryd o edifeirwch. Mae'n amhosib heddiw fel yr oedd pan gyfarfu Crist â phechaduriaid eraill fel Lefi y Casglwr Trethi a adawodd ei ffyrdd llwgr a dilyn Crist...a sut gallwn ni anghofio Sacheus a adawodd yn yr un modd â'i hen ffyrdd a dilyn Crist.

Os ydym wedi tyfu i fyny yn y capel neu wedi dod at ffydd yn nes ymlaen: mae angen ysbryd edifeirwch o hyd ...sef parodrwydd i wneud "newidiadau" bob dydd.

Fel Cristnogion byddwn yn gwneud camgymeriadau, ond ni ddylai hyn fod yn esgus i ni na'n amcan ar fywyd chwaith.

Hyd yn oed yn ystod ein camgymeriadau, dylem eu cydnabod wrth syllu ar esiampol berffaith Iesu Grist.

Dylem fod yn barod i wneud "Tro pedol" i ffwrdd o gaethiwed; anghrediniaeth; amheuaeth; anfoesoldeb; balchder ac anffyddlondeb ... i enwi ond ychydig o enghreifftiau ichi a throi at Grist- newidiadau sy'n dod â newid parhaol a bendith i ni mewn bywyd wrth inni ganolbwyntio ar bethau'r Nefoedd, y pethau sy'n bur a da.

Sy'n ein harwaim at hyn:

a ninnau'n Greadinwyr, ni allwn barhau fel y gwnaethom erioed, oherwydd trwy nerth yr Ysbryd Glân fe'n collfarnir i wneud "dyfodol" gwell i'n hunain fel y gallwn fyw mewn heddwch â Duw ein Tad a'n Hiachawdwr Iesu Grist.

Bydd y Byd yn dweud wrthyfch nad oes angen gweithredu o'r fath arnoch ... ond fel Cristnogion rydyn ni'n gwybod ei fod ef fel ein Tad yn ein galw ni at edifeirwch heddiw fel yr oedd ddoe!

Tybed at ba "tro pedol" mae Duw yn eich galw chi heddiw?

Myfyriwch, gweithredwch a chamwch tuag at y "dyfodol" hwnnw, sef dyfodol Duw ichi a chael eich llenwi â'r llawenydd o adnabod Crist yr Atgyfodedig Un- llawenydd sy'n para am dragwyddoldeb.

Mae ffordd edifeirwch yn ffordd heriol a phoenus weithiau wrth inni droi oddi wrth y pethau hynny sy'n ein cadw ni rhag Duw ac yn nesáu ato ar y ffordd gul sy'n arwain i Fywyd Tragwyddol.

"Nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi. Glanhewch eich dwylo, chwi bechaduriaid, a phurwch eich calonnau, chwi bobl ddau feddwl."

Iago 4:8

Er mwyn ei enw,

Amen

